OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2513 (Cy. 275)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Gwahanol Fannau rhwng Llandinam a Chemais, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A470), Cefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A470) a Chefnffordd Glantwymyn – Mallwyd (yr A470) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Gwahanol Fannau rhwng Llandinam a Chemais, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A470 rhwng Llandinam a Chemais yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 20 Hydref 2011

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**YR ATODLEN**

Llandinam i Groesfan Moat Lane

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2157, i bwynt 168 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2062.

Troed-y-rhiw, Carno

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 375 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2548, i bwynt 221 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Pentref Carno

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2013 i bwynt 186 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4061.

Pont Dôl-dwymyn i Fronheulog, Cemais

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ymyl ogleddol y fynedfa i Abertwymyn i ymyl ddeheuol ei chyffordd â'r U2295.